Forest Research

Gwerthusiad o Gydcoed: y buddion cymdeithasol ac economaidd o ddefnyddio coed a choetiroedd ar gyfer datblygu cymunedol yng Nghymru

Crynodeb Gweithredol i Gomisiwn Coedwigaeth Cymru
Tachwedd 2008

Grŵp Ymchwil Cymdeithasol ac Economaidd
Isadran yr Amgylchedd a Gwyddorau Dynol

Asiantaeth Ymchwil y Comisiwn Coedwigaeth,
Prydain

1. Cefndir

Cymru yw'r unig wlad yn y DU sydd â chyfrifoldeb deddfwriaethol i gynnwys egwyddorion datblygu cynaliadwy ym mhob polisi a strategaeth. Mae holl bolisi Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi'i ganolbwyntio ar greu gwlad sy'n fwy llewyrchus, yn fwy iach ac wedi'i haddysgu'n well. Mae Cydcoed, a ddatblygwyd yn strategaeth *Coetiroedd i Gymru*[1] yn dangos cyfaniad a synergedd â blaenweledigaeth y Cynulliad.

Ariannwyd Cydcoed trwy raglen Amcan 1 yr UE a chynllun Ffordd i Ffyniant Llywodraeth y Cynulliad. Anelwyd y rhaglen yn bennaf, ond nid yn unig, at ddwy brif adran: cymunedau â'r amddifadedd mwyaf yn ôl Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru, a chymunedau lle nad oes gan y boblogaeth fynediad at ofod gwyrdd cymunedol at ddibenion ymlacio ac ymarfer. Rhaglen gwerth £16 miliwn a ariannwyd dros ddau gyfnod (2001-2004; 2003-2008) oedd Cydcoed, a roddodd grantiau gwerth 100% i 163 o grwpiau cymunedol ar draws rhanbarth Amcan 1 (Gorllewin Cymru a'r Cymoedd).

Amcanion craidd Cydcoed oedd defnyddio coedwigaeth gymunedol i gyflawni cynhwysiad cymdeithasol, i helpu creu cyfalaf cymdeithasol; helpu creu a chynnal grwpiau cymunedol o allu uchel a allai ddylanwadu ar benderfyniadau ynghylch eu cymdogaeth; coedwigoedd sy'n darparu buddion cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol ac; unigolion a allai gymryd rhan gadarnhaol yn eu cymunedau.

Cyfrannodd Cydcoed ar ran Comisiwn Coedwigaeth Cymru (CCC) ar draws pedair prif thema yng *Nghoetiroedd i Gymru*: coetiroedd i bobl; pwyslais newydd ar reolaeth coetir; amgylchedd amrywiol ac iach a; thwristiaeth, hamdden ac iechyd. Cyfraniad cymdeithasol ac economaidd i'r themâu hyn a gyflwynir yn y gwerthusiad hwn.

1.1. Amcanion y gwerthusiad

Comisiynwyd y gwerthusiad hwn gan Gydcoed a Chomisiwn Coedwigaeth Cymru. Cafwyd ariannu ar y cyd gan Gefnogaeth Coedwigaeth Corfforaethol (CFS) a Chydcoed. Rydym yn darparu gwerthusiad annibynnol o Gydcoed, gan ddadansoddi i'r graddau y cyflawnodd canlyniadau tymor hir a ddymunwyd, a'r effaith ar gymunedau lle bu prosiectau'n digwydd. Yn ogystal, cyflwynir dadansoddiad o fuddion Cydcoed i'r cyhoedd. Er eu bod yn rymus, cyfyngwyd ar ein canlyniadau gan ddiffyg data sylfaenol, datblygiad dangosyddion a monitro parhaus yn y rhaglen.

1.2. Dulliau a dangosyddion

Datblygwyd y dulliau ar gyfer y gwerthusiad hwn o ganlyniad i strwythur presennol y rhaglen Cydcoed, a gofynion y corff ariannu allanol (Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru). Er mwyn crynhoi'r canlyniadau gwrthrychol (ansoddol) a goddrychol (profiadol neu ansoddol), roedd yn bwysig datblygu cyfres o ddangosyddion cyn cychwyn ar unrhyw ymchwil. Defnyddiodd yr ymchwilwyr ddulliau rhyngddisgyblaethol, gan ganolbwyntio ar arolygon o bob grŵp Cydcoed; arolygon o samplau cynrychiadol o grwpiau a defnyddwyr y coetiroedd; cyfweliadau lled-strwythuredig, grwpiau ffocws a thrafod; cyfweliadau dros y ffôn; astudiaethau achos ansoddol; dadansoddiad economaidd o fuddion Cydcoed i'r cyhoedd na farchnatwyd ac; ymchwil desg ac adolygiadau o lenyddiaeth.

[1] Comisiwn Coedwigaeth Cymru, 2001

2. Ymchwil Thematig

2.1. Y Rhaglen Cydcoed datblygiad; safle; strwythurau; partneriaethau a phrosesau sgiliau

Defnyddiodd CCC Cydcoed fel mecanwaith i annog rhyngweithio cymunedol â choed a choetiroedd ar Ystâd y Cynulliad a thu allan iddi. Er bod hyn yn arloesol i Gomisiwn Coedwigaeth Cymru, roedd yn cyd-fynd yn dda â *Choetiroedd i Gymru* ac yn ategu polisïau eraill y Cynulliad.

Cyflwynwyd Cydcoed ar hyd braich oddi wrth Gomisiwn Coedwigaeth Cymru: yn gyntaf o dan nawdd Tircoed[2] ac wedi hynny o dan Gomisiwn Coedwigaeth Cymru ond fel corff ymreolaethol ar wahân. Canlyniad hyn fu dryswch yng Nghomisiwn Coedwigaeth Cymru a thu allan iddo. Gwaethygwyd y sefyllfa o ddiffyg cyfathrebu mewnol ynglŷn ag ethos a chylch gwaith Cydcoed gan y ffaith bod Swyddogion Prosiect yn gweithio o gartref. Yn aml, teimlai swyddogion eu bod ar eu pennau eu hunain ac roedd tyndra yn y perthnasoedd rhwng aelodau staff Cydcoed ac aelodau staff eraill CCC. Roedd y perthnasoedd hyn yn sylfaenol wrth lunio'r ffordd yr oedd Cydcoed yn gweithio a'r ffordd y'i cyflwynwyd yng Nghomisiwn Coedwigaeth Cymru. Cymhlethwyd materion gan ddiffyg arweiniad a phrotocol ar gyfer aelodau staff, a oedd, mewn rhai enghreifftiau, heb ddeall mai rhaglen fewnol oedd Cydcoed.

Roedd gan Swyddogion Cydcoed gylch gwaith daearyddol eang, er hynny roedd strwythur y tîm yn gydlynus ac yn gweithio'n dda. Gallai ymagwedd fwy strwythuredig a graddol at ddatblygu ac ariannu prosiectau fod wedi lleihau'r pwysau a Swyddogion a oedd yn gweithio dros ardal ofodol fawr. Crybwyllodd grwpiau prosiect bresenoldeb y swyddogion yn lleol a'u gallu i weithredu fel hwyluswyr ac ymgynghorwyr yn ffactorau allweddol i lwyddiant Cydcoed.

Disgwylir i swyddogion feddu ar ystod amrywiol o sgiliau ac i fod yn hyblyg, ystwyth a gwybodus ar ystod eang o faterion. Mewn rhai achosion, teimlwyd bod hyn yn feichus a nododd Swyddogion mewn rhai achosion nad oeddent yn hyderus i fynd at gydweithwyr CCC am gymorth neu gyngor. Mae'n amlwg bod diffyg cysondeb o ran agwedd at gynnwys cymunedau mewn coetiroedd ar draws rhanbarthau CCC.

Cyflogwyd Swyddogion Cydcoed am eu gwybodaeth a'u harbenigedd yn y maes datblygu cymunedol. Mae'r wybodaeth hon wedi profi'n hanfodol i raglen Cydcoed a'r ffordd y mae wedi datblygu ar lawr gwlad: ymgysylltu ag unigolion a sefydliadau eraill fel ei gilydd ar lefel lleol a chenedlaethol.

Mae partneriaethau ar bob lefel wedi profi'n bwysig i fwyafrif y grwpiau. Crybwyllwyd anawsterau pan oedd colli rheolaeth canfyddedig i'r grŵp, pan oedd cyrff partner naill ai'n methu â chyflwyno'r prosiect neu eu bod yn ei rheoli. Ni sefydlodd Cydcoed bartneriaethau yn ei rhinwedd ei hun ond bu fel hwylusydd ar gyfer ffurfio partneriaethau. Mae llawer o'r rhain wedi aros yn gynaliadwy ac mae rhai wedi arwain at lefelau uwch o gynrychiolaeth gymunedol mewn materion yn ymwneud â llywodraeth leol.

Mae gweithio mewn partneriaeth yn cronni cyfalaf cymdeithasol i'r bobl sy'n cymryd rhan. Roedd statws a ffurfiolwyd y grwpiau prosiect (rhagofyniad ar gyfer ariannu) yn ddangosydd cymhwysedd i ddarpar bartneriaid.

Er y'u cyfyngir gan natur derfynedig y rhaglen a'r ariannu cysylltiedig, mae'r cryfder o adael grwpiau i ddynodi prosiectau coetir a darparu arian i gyflawni eu nodau wedi

[2] www.tircoed.org.uk

profi'n brofiad grymusol i'r bobl a gymerodd ran gan adlewyrchu'r ystod amrywiol o gymunedau ac anghenion ar draws Cymru.

2.2. Buddion iechyd a lles

Roedd dros 90% o ymatebwyr i'r arolwg o'r farn bod coedwigoedd yn rhan bwysig o greu teimlad o les trwy gynnig ardal ymlaciol a rhydd o straen: nododd mwy na hanner o'r bobl a holwyd, welliant yn eu lles yn gyffredinol ar ôl cymryd rhan mewn prosiect Cydcoed.

Mae cyfran fwy o'r grwpiau oed iau (o dan 45 oed) wedi elwa ar 'welliant sylweddol' o ran lles i gymharu â grwpiau eraill. Teimlai dros 90% o'r rhai hynny a holwyd yn ddiogel wrth ymweld â choetiroedd.

Cytunodd ychydig dros hanner o'r bobl a gymerodd ran mewn prosiect Cydcoed fod cymryd rhan wedi'u gwneud i ymarfer corff yn fwy rheolaidd a datganodd dros 40% bod eu hiechyd corfforol wedi gwella ers iddynt gymryd rhan.

Dangosodd dadansoddiad bod gwrywod yn hytrach na benywod yn elwa mwy ar fwy o ymarfer ond yn y grŵp rhwng 45 a 64 oed adroddwyd y bu'r budd lleiaf i'r ddau ryw.

Mae gwaith holiadur a grwpiau ffocws ill dau yn cefnogi'r gredo bod prosiect Cydcoed yn helpu i gynyddu gweithgaredd corfforol rheolaidd. Mae hyn yn fwyaf tebygol oherwydd agosrwydd coetiroedd at ardaloedd preswyl (nododd 60% o ymatebwyr eu bod yn cerdded i'r coetir) ac oherwydd nad oedd angen gwario arian i ddefnyddio'r coetir.

Dengys enghreifftiau o'r astudiaethau achos lawer o grwpiau yn defnyddio coetiroedd ar gyfer cynlluniau 'cerdded llwybr iechyd' ar y cyd ag Awdurdodau Lleol a chydnabyddir yn eang y buddion corfforol o goetiroedd. Roedd y sylwadau'n cynnwys:

> *Fe wnaiff i bobl ddod allan yn fwy aml, i gerdded neu fynd ar gefn eu beiciau, bydd yn braf allan yno* (aelod o grŵp Cydcoed, Glan Morfa)

2.3. Buddion cyfalaf cymdeithasol a dynol

Mae cyfalaf cymdeithasol yn cymryd amser i gronni – blynyddoedd yn aml. Byddai'n fuddiol ailymweld â chymunedau prosiect Cydcoed yn y dyfodol i archwilio effeithiau tymor hwy yr ymyrraeth.

Hyd yn hyn, mae oddeutu 18,000 o blant ysgol wedi cymryd rhan i ryw raddau mewn prosiectau Cydcoed. Mae gan grwpiau prosiect gyfanswm o 8,955 o aelodau ac maent yn gweithio â 6,490 o bobl o grwpiau cymunedol eraill. Cytunodd dros hanner o'r bobl a holwyd bod lefel eu hymddiried yn y gymuned wedi codi o ganlyniad i gymryd rhan mewn prosiect Cydcoed a chytunodd oddeutu 75% eu bod wedi dod i adnabod mwy o bobl o ganlyniad i Gydcoed.

Dynododd 85% bod ansawdd bywyd ar gyfer y gymuned wedi gwella trwy gymryd rhan yng Nghydcoed ac roedd 79% o'r farn bod y prosiectau wedi helpu meithrin cysylltiadau cryfach rhwng pobl yn eu cymuned.

Dynododd bron i hanner o'r bobl a holwyd bod Cydcoed wedi rhoi cyfle iddynt wirfoddoli. Awgryma hyn ddymuniad cudd i gymryd rhan mewn gweithgareddau cymunedol.

Mynnodd dros draean o'r ymatebwyr i'r ymchwil fod y prosiect naill wedi lleihau neu wedi atal ymddygiad gwrthgymdeithasol yn y coetiroedd neu yn eu cyffiniau a dynododd traean fod y prosiectau wedi darparu lle i blant chwarae.

Dengys ymchwil astudiaeth achos fod gwybodaeth a sgiliau a ddatblygwyd drwy Gydcoed bellach yn cael eu rhaeadru drwy'r gymuned. Er ei bod yn anodd ar hyn o bryd ganfod gwir ddyfnder y cynnydd mewn cyfalaf cymdeithasol, nid oes llawer o amheuaeth bod y prosiectau wedi cynyddu ymddiried, rhwydweithiau a pherthnasoedd ar lefel leol a chymunedol.

2.4. Buddion addysg a dysgu

Tra bod ysgolion cynradd yn gallu defnyddio'r prosiectau i fodloni rhai o amcanion y cwricwlwm cenedlaethol, cyfyngwyd ymglymiad ysgolion uwchradd yn bennaf i'r rhai hynny a oedd wedi'u heithrio o weithgareddau cwricwlwm ond a oedd yn ymwneud â gwaith sgiliau allweddol. Crybwyllwyd y cwricwlwm cenedlaethol yn ddylanwad a oedd yn cyfyngu ar ymweld â choedwigoedd, ond roedd hyn cyn cyflwyno Cyfnod Sylfaenol addysg i blant rhwng 3 ac 11 oed yng Nghymru, lle rhoddir mwy o bwyslais ar addysg awyr agored.

Adroddodd athrawon fod plant yn fwy hyderus ac yn ymlacio mwy pan oeddent yn y coetiroedd, ond roeddent yn betrusgar i gytuno bod hyn yn cael ei drosglwyddo i'r dosbarth.

Nododd 29% o'r rhai hynny a gymerodd ran eu bod wedi ennill profiad gwaith cyffredinol, ond cynnydd bychan yn unig mewn cymwysterau proffesiynol o ganlyniad i gymryd rhan yr adroddwyd amdano. Gallai hyn fod oherwydd bod llawer o'r rhai a gymerodd rhan wedi nodi eu bod wedi ymddeol.

Dangosodd ymchwil i astudiaethau achos bod sawl prosiect wedi sefydlu cynlluniau lleoli myfyrwyr â cholegau a phrifysgolion lleol. Mae prosiectau eraill wedi datblygu cynlluniau prentisiaeth a chyrsiau achrededig coleg agored.

Mae dros 3,000 o bobl wedi mynychu cyrsiau a drefnwyd gan grwpiau cymunedol Cydcoed, ac mae dros 7,000 o bobl wedi mynychu digwyddiadau â thema addysg a dysgu a drefnwyd gan grwpiau Cydcoed.

Cytunodd 78% o ymatebwyr fod cymryd rhan yn y prosiect wedi rhoi dealltwriaeth well iddynt o'r amgylchedd lleol a chytunodd dros 83% bod ymweld â choetiroedd yn gymorth i ddysgu am natur.

2.5. Buddion hamdden

Dengys ein hymchwil y gwneir defnydd hamdden newydd o goetiroedd a chynnydd yn y defnydd ohonynt o ganlyniad i Cydcoed. Mae hyn yn wir hyd yn oed lle mae safleoedd coedwigoedd cyhoeddus yn bodoli eisoes, ond yn fwy o bellter o ble mae pobl yn byw. Lleolir coetiroedd Cydcoed yn agos at ganolfannau poblogaeth ac mae'r mwyafrif o bobl yn mynd iddynt ar droed.

Roedd y gweithgareddau mwyaf poblogaidd yn cynnwys cerdded, gwylio bywyd gwyllt ac adar a mwynhau'r wlad. Ar gyfartaledd, crëwyd 420 metr o lwybrau neu draciau newydd gan bob prosiect Cydcoed. Crëwyd cyfanswm o 326 o fannau mynediad a gwellwyd ac uwchraddiwyd 326 arall.

Nododd 75% o'r rhai a holwyd fod hamdden yn fudd i'w teulu a nododd oddeutu hanner bod eu defnydd o'r coetir wedi cynyddu ers cymryd rhan ym mhrosiect Cydcoed.

Dengys ymchwil i astudiaethau achos y bu cynnydd mewn chwarae anffurfiol yng nghoetiroedd Cydcoed, a bod llawer o goetiroedd bellach yn cael eu defnyddio fel 'llwybrau tarw' i ysgolion, siopau ac i ymweld â chyfeillion.

2.6. Buddion amgylcheddol

Nid oedd gwerthusiad o gyfraniad amgylcheddol prosiectau i'r amgylchedd yn rhan gyfannol o'r maes gorchwyl ymchwil. Cydnabyddir bod gwelliannau amgylcheddol yn benodol iawn i safleoedd ac i fesur y rhain mae angen mesurau terfynol sy'n benodol i safle. Fodd bynnag, llwyddodd yr ymchwil i gasglu sawl canlyniad amgylcheddol o brosiectau a chasglwyd tystiolaeth ansoddol o welliannau.

Mae prosiectau Cydcoed wedi creu 80 o goetiroedd cymunedol newydd, sef maint o dua 205 hectar. Ar hyn o bryd mae dros 340 o gynlluniau rheoli coetiroedd cynaliadwy newydd wedi'u cyflwyno sydd yn cynnwys oddeutu 8,915 hectar.

Dengys canlyniadau'r arolwg fod mwyafrif yr ymatebwyr wedi elwa ar y coetiroedd trwy ddysgu am yr amgylchedd a bod dros 98% o ymatebwyr yn cytuno bod coetiroedd yn rhan bwysig o'r gymuned.

Cafwyd y sylwadau canlynol, ymhlith eraill, o ganlyniad i ymchwil ansoddol â grwpiau ynghylch effeithiau amgylcheddol prosiectau ar eu hardaloedd:

> *Gwelliant amgylcheddol safle tai lle na fu naill ai ddim plannu neu ychydig o blannu o'r blaen* (Coedwig Gymunedol Tredegyr)
>
> *O ganlyniad i'r prosiect, mae'r safle wedi'i benodi yn warchodfa natur leol* (Y Glyn)

2.7. Buddion cyflogaeth ac i'r economi lleol

Prin oedd y wybodaeth a gafwyd o ganlyniad i'n harolwg i grwpiau Cydcoed o ran creu a diogelu swyddi: 5% o deuluoedd yn unig a adroddodd eu bod wedi elwa o waith amser llawn a 2% o gyflogaeth ran-amser. Mae'r data hyn yn gymwys i'r rhai hynny sy'n ymwneud â rhoi prosiectau ar waith yn unig, lle dynododd nifer sylweddol (40%) eu bod wedi 'ymddeol'.

Adroddwyd gan brosiectau bod dros 60 o swyddi wedi'u creu yn y gymuned ehangach a dros 280 o swyddi wedi'u diogelu. Nid oedd yng nghylch gorchwyl y gwerthusiad hwn i ganfod natur y swyddi hyn na'u cynaliadwyedd dros amser.

Adroddwyd gan brosiectau eu bod wedi cefnogi dros 40 o fusnesau pren a choetiroedd. Nid oedd yn ofynnol i grwpiau prosiect fonitro gwerth economaidd y gefnogaeth hon na'i chyfraniad i gynaliadwyedd busnesau lleol.

Dangosodd ymchwil astudiaeth achos bod pryderon ymhlith y grwpiau ynghylch cynaliadwyedd hir dymor swyddi pan ddaw'r ariannu i ben. Mae rhai grwpiau wedi bod yn fedrus wrth gael ariannu ychwanegol o ffynonellau eraill, gan sicrhau y cedwir rhai swyddi. Mynegodd grwpiau eu pryder ynghylch dibynnu ar grantiau ar gyfer swyddi a grëwyd trwy raglenni fel Cydcoed.

Crybwyllodd grwpiau dystiolaeth storïol o gynnydd yn yr ymwelwyr â choetiroedd, ac awgrymwyd y byddai hyn o fudd i'r economi leol.

2.8. Crynodeb o fuddion i'r cyhoedd na farchnatwyd

Yn y dadansoddiad o fuddion, cyflwynir amcangyfrifon ar ddwy raddfa: cymunedol a rhaglen:

- Mae *'Cymunedol'* yn cyfeirio at y buddion ar gyfartaledd fesul cymuned lle mae prosiect Cydcoed wedi'i gyflwyno
- Mae *'Rhaglen'* yn cyfeirio at gyfanswm y buddion sy'n deillio o'r 163 prosiect a gyflwynwyd yn y rhaglen Cydcoed ledled ardal Amcan Un Cymru.

Ni ellir symud yr holl fuddion o fod yn rhai cymunedol i fod yn rhai rhaglen ac mae rhai o'r buddion yn bodoli yn unig mewn cymunedau lle mae math arbennig o weithgaredd yn digwydd (e.e. parc cerfluniau). Yn yr achosion hyn ystyriwyd cymhwysiad cyfyngedig y budd wrth gydgrynhoi mesurau ar draws yr holl brosiectau.

Mae Tabl 1 isod yn crynhoi'r buddion na farchnatwyd o raglen Cydcoed y pennwyd gwerth iddynt. Mae buddion yn gymysgedd o gostau blynyddol a arbedwyd, buddion blynyddol i gymdeithas a buddion unigryw i unigolion sy'n gysylltiedig â hyfforddiant sgiliau a chyflogaeth. Ni chyfrifwyd cyfanswm y buddion ar y raddfa gymunedol oherwydd:

- amrywioldeb yn nefnydd ysgolion o goetiroedd mewn cymunedau (gallai fod ar gyfer ysgolion cynradd neu ysgolion uwchradd yn unig neu ar gyfer ysgolion cynradd ac uwchradd);
- amrywioldeb y buddion hamdden a allai fod ar gael;
- amrywioldeb mewn buddion amgylchedd o ganlyniad i fuddsoddiadau Cydcoed
- amrywioldeb yn yr ystod o fuddion ecolegol sy'n deillio o bob coetir.

Amlycaf yn y mesuriadau cyfanswm buddion ar lefel gymunedol ac ar lefel genedlaethol yw'r buddion hamdden. Mae buddion iechyd (amcangyfrif uchel) a'r buddion amgylcheddol fel ei gilydd hefyd yn sylweddol. Y budd hamdden mwyaf yw cerdded oherwydd y nifer mawr o bobl a nododd eu bod yn cymryd rhan yn y math hwn o weithgaredd, ac agosrwydd llawer o goetiroedd Cydcoed at gymdogaethau preswyl. Ar lefel genedlaethol, mae'r buddion o gerdded yn amrywio'n eang o £0.67 miliwn hyd at £10.8 miliwn y flwyddyn. Mae'r amrywioldeb yn seiliedig ar ragdybiaethau am y nifer o bobl mewn cymuned sy'n cerdded.

Mae buddion o iechyd a lles gwell yn geidwadol ac yn seiliedig yn unig ar wariant a arbedwyd o leihad yn nifer yr achosion o ddiffyg y galon, ac nid ydynt yn cynnwys mesuriadau o fudd i unigolion sy'n byw'n hŷn, neu sydd mewn cyflogaeth amser llawn am gyfnodau hwy. Bydd y cynnydd mewn ymarfer corfforol a nodwyd yn yr astudiaeth yn cael effaith gadarnhaol ar nifer yr anhwylderau, yn ogystal ag ar les ac ansawdd bywyd cyffredinol unigolion, ac ni werthuswyd yr un o'r rhain yn yr astudiaeth hon.

Tanamcangyfrifir yr effeithiau ar yr economi leol hefyd gan nad yw'r dadansoddiad wedi cynnwys effeithiau arian rhaglen Cydcoed ar gymunedau lleol.

Dylid nodi hefyd, ac eithrio'r buddion cyflogaeth a sgiliau, fod y gwerthoedd a gyflwynir yn fuddion blynyddol, a bydd hyn parhau cyhyd ag y bydd y coetiroedd yn parhau i gael eu defnyddio yn yr un modd. Mae'r buddion wedi'u seilio hefyd ar y rhagdybiaeth y caiff coetiroedd a mynediad i goetiroedd eu cynnal a'u cadw yn y dyfodol ar y lefelau cyfredol. Yn amlwg, mae costau cynnal a chadw parhaus (e.e. ffensio, cynnal gatiau a llwybrau, rheoli llystyfiant) er mwyn darparu llif y buddion a

nodir yn y tabl hwn. Mae rhai buddion, er enghraifft, buddion iechyd, y bydd angen parhau'r lefelau gweithgaredd corfforol i'r dyfodol.

Crynodeb o fuddion Rhaglen Cydcoed 2001 – 2008

	Graddfa Cymuned (£ y flwyddyn)	**Graddfa Rhaglen (£ y flwyddyn)**
Addysg (costau blynyddol a arbedwyd)		
Cynradd	900	64,800
Uwchradd:		
Cwricwlwm cenedlaethol	765	25,245
Galwedigaethol/arall	500	16,500
Arbennig		800
Cyfanswm y costau blynyddol a arbedwyd		107,345
Hamdden (buddion blynyddol)		
Cerdded		
Uchel	*84,843*	*10,350.846*
Canolig	*44,667*	*5,449,374*
Isel	*1,292*	*157,624*
Seiclo		
Uchel	*581*	*3,487*
Isel	*290*	*1,743*
Llwybrau cerfluniau	334	2,687
Gwylio bywyd gwyllt/adar	3,672	297,432
Chwarae anffurfiol	2,645	214,245
Cyfanswm y buddion blynyddol		
Uchel		10,867,725
Canolig		5,962,766
Isel		672,759
Gofal iechyd (costau blynyddol a arbedwyd)		
Amcangyfrif uchel	£5,000	£815,000
Amcangyfrif isel	£64	£10,000
Yr Amgylchedd		
Tirwedd	6,534	261,360
Dal a storio carbon	ddim ar gael	ddim ar gael
Gwelliannau ecolegol	12,234	599,466
Gwelliannau yn ansawdd yr aer	ddim ar gael	ddim ar gael
Cyfanswm y buddion blynyddol		860,826
Caffaeliad sgiliau a phrofiad gwaith		
(Sylwer: mae'r rhain yn gyfanswm y buddion tros gyfnod y rhaglen, 2001-2008)		
Caffaeliad sgiliau newydd		
Amcangyfrif uchel	5,350	875,000
Amcangyfrif isel	1,000	163,000
Profiad gwaith	1,400	228,200
Gwaith amser llawn	10,400	1,695,200
Gwaith rhan-amser	1,000	81,000
Cyfanswm y buddion		
Amcangyfrif uchel	18,150	2,879,400
Amcangyfrif isel	13,800	2,167,400

Tabl 1: Crynodeb o fuddion i'r cyhoedd nas marchnatwyd

2.9. Trafodaeth

Er y byddai angen ymchwil pellach i asesu buddion cymunedol Cydcoed yn y tymor hwy, mae cyfraniad prosiectau Cydcoed i agenda strategol Llywodraeth y Cynulliad wedi bod yn sylweddol.

Y prif grŵp o fuddiolwyr yw'r rhai hynny sydd wedi cymryd rhan yn uniongyrchol mewn prosiectau, tra bo'r rhai mwy gwasgaredig yn cynnwys gweithwyr proffesiynol a sefydliadau eraill. Llwyddiannau allweddol Cydcoed yw cydlyniad cymdeithasol gwell a chyfalaf cymdeithasol. Gellir rhoi llai o arwyddocâd i'r buddion amgylcheddol ac economaidd. Mae gwelliannau amgylcheddol wedi bod yn benodol iawn i safle. Yn yr un modd, gyda rhai eithriadau, mae datblygiad economaidd wedi bod o gywair isel yn gyffredinol.

Mae cyfraniad Cydcoed i ddatblygu cymunedol ar draws Cymru wedi bod yn eang. Mae wedi bod yn llwyddiannus wrth ymdrin â phobl, creu cysylltiadau rhwng unigolion, cymunedau a sefydliadau gan ganolbwyntio ar faterion amgylcheddol lleol. Mae nodau'r prosiectau wedi bod yn bwysig ond y broses sy'n arwyddocaol o ran adeiladu hyder a gallu yn y grwpiau.

Mae'r canolbwyntio ar goedwigoedd, coed a choetiroedd wedi bod yn werthfawr, gan eu bod wedi darparu canolbwynt ar gyfer prosiectau. Awgryma ymchwil ansoddol fod hyn wedi bod yn gatalydd ar gyfer cymryd rhan: dywedodd llawer o unigolion na fyddent wedi bod mor awyddus i gymryd rhan mewn gweithgareddau cymunedol oni bai bod y prosiectau yn ymwneud â choedwigoedd, coed a choetiroedd. Mae hyn yn bwysig, oherwydd er bod llawer o sefydliadau eraill yng Nghymru yn cynnig arbenigedd datblygu cymunedol, mae'r defnydd o goetir fel mecanwaith i gynnig cyfleoedd o'r fath yn unigryw i Gomisiwn Coedwigaeth Cymru yng Nghymru.

2.10. Argymhellion

1. Gofynnwyd i'r gwerthusiad hwn bennu canlyniadau cymdeithasol rhaglen Cydcoed ac mae hyn wedi'i ddarparu ar sail y data a oedd ar gael. Argymhellwn:
    a. Ddiffinio dangosyddion priodol adeg y datblygir rhaglen
    b. Casglu data sylfaenol priodol naill ai cyn cychwyn prosiectau neu pan fônt ar fin cychwyn.
    c. Sefydlu rhaglen o fonitro parhaus a chadw ati yn ystod y prosiect/rhaglen

2. Dyfynnwyd swyddogaeth Swyddogion Prosiect yn allweddol i lwyddiant y mwyafrif o brosiectau. Fel y dangoswyd gan Gydcoed, mae angen set o sgiliau penodol ac eang i weithio â chymunedau. Efallai y bydd angen buddsoddiad sylweddol mewn datblygu sgiliau staff i weithio â chymunedau yn y dyfodol naill ai ar ystâd y Cynulliad neu beidio.

3. Mae'r math o gymorth a gynigiwyd gan Gydcoed wedi'i werthfawrogi gan gymunedau ac mae wedi cyfrannu i amcanion polisi amryfal Llywodraeth Cynulliad Cymru. Awgrymwn gyflwyno unrhyw ymyrraeth yn y dyfodol ar draws Cymru i gyd ond gyda phwyslais arbennig ar ardaloedd o amddifadedd uchel gwledig a threfol.

4. Awgrymwn y byddai'n fanteisiol i Gomisiwn Coedwigaeth Cymru ystyried cydweithio'n agosach â sefydliadau eraill er mwyn manteisio i'r eithaf ar gyflwyno budd i'r cyhoedd a gwerth am arian. Mae'r ymagwedd hon yn addas

iawn ar gyfer cyflwyno gofodol a dargedir a byddai'n darparu cyfle ychwanegol i ddangos hyblygrwydd coetiroedd wrth fodloni amcanion amryfal trawsbynciol.